WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Cyflawni â Llai – Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd – Adolygiad Dilynol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2019

Cyfeirnod y ddogfen: 1549A2019-20

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac adran 18 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cyflawnwyd y gwaith gan Grant Thornton UK LLP dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Adroddiad cryno

Mae'r model Cydwasanaethau Rheoleiddio (SRS) yn galluogi'r Cyngor i gynnal ei ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau a chyfrifoldebau a osodir arno gan newidiadau parhaus mewn deddfwriaeth. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau trosolwg a chraffu ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gweithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a darparwyr eraill i archwilio'r cyfleoedd i wella yn y dyfodol.


Adroddiad cryno

Cynigion ar gyfer gwella 7

Adroddiad manwl

Mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 ond mae perfformiad y Cyngor wedi cael ei gynnal trwy gydweithio gyda dau gyngor arall trwy'r cydwasanaeth rheoleiddio 9

Er bod y Cyngor a'r cydwasanaeth rheoleiddio'n hyderus bod rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu cyflawni, nid yw'r naill na'r llall wedi cwblhau asesiad i ganfod ai felly y mae hi. Dylai'r Cyngor a'r cydwasanaeth rheoleiddio gydweithio i wahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i oleuo prosesau penderfynu mewn ynglŷn ag unrhyw ostyngiadau mewn cyllidebau yn y dyfodol 14

Mae fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad yn gadarn ond gallai trefniadau ar gyfer adolygu a herio gwybodaeth am berfformiad gael eu ffurfioli 15

Dylai'r Cyngor wella her annibynnol, trosolwg a chraffu gan aelodau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir gan y Cyngor, y cydwasanaeth rheoleiddio a darparwyr eraill 16

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau arwyddocaol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai roi ystyriaeth fwy gofalus i effaith newidiadau yn y dyfodol ar drigolion a busnesau a gwneud gwaith ymgynghori uniongyrchol lle y bo'n briodol 18

Rhaid i'r Cyngor a'r Cydwasanaeth Rheoleiddio barhau i arloesi a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau yn y cyllid 19

Atodiadau

Atodiad 1 – argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol – Cyflawni â llai –
yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion 2014 2014 20

Atodiad 2 – cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol 24

# Crynodeb

## Yr hyn y gwnaethom ei adolygu a pham

1 Ym mis Hydref 2014, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad cenedlaethol, **Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** (gweler Atodiad 1 ar gyfer yr argymhellion o'r adroddiad hwnnw). Fe wnaeth ein hadolygiad lleol yn 2019 asesu pa un a fu unrhyw newidiadau i gyllidebau a staff yng ngwasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor ac i ba raddau y mae wedi mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gennym yn 2014. At ddibenion yr adolygiad hwn, fe ganolbwyntiom ni ar gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion 2, 3, 4, a 5.

2 Mae gan gynghorau ddyletswyddau niferus lle mae iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn ac mae dinasyddion yn rhoi gwerth mawr ar lawer o'r gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir. Ar ben hynny, mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn effeithio'n uniongyrchol ar iechyd, llesiant a diogelwch trigolion Cymru ac ymwelwyr â'r wlad.

3 Mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cwmpasu ystod o faterion, megis diogelwch bwyd, rheoli plâu, rheoli cŵn, tai a lleihau achosion ac effeithiau llygredd aer.

4 I oleuo ein canfyddiadau, fe wnaethom gyfweld â detholiad o swyddogion ac aelodau, y mae eu cylch gorchwyl yn cynnwys trefniadau'r Cyngor ar gyfer iechyd yr amgylchedd. Fe wnaethom hefyd adolygu dogfennaeth berthnasol.

5 Fe gynhaliom ni'r adolygiad rhwng mis Ebrill 2019 a mis Gorffennaf 2019.

## Cefndir

6 Ers 1 Mai 2015, mae Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (y Cyngor) a Chyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg wedi bod yn gweithredu dan gytundeb gweithio ar y cyd a adwaenir fel y cydwasanaeth rheoleiddio (SRS). Mae'r cydwasanaeth rheoleiddio'n darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, trwyddedu a safonau masnachu.
Mae'r Cyngor yn dal i ddarparu gwasanaethau eraill y tu allan i'r cydwasanaeth rheoleiddio, fel a restrir ym mharagraff 11.

7 Mae gan y cydwasanaeth rheoleiddio un tîm rheoli sy'n gweithio ar draws tri Chyngor. Mae'n gweithredu dan gydgytundeb rhwng y cynghorau sy'n cyfranogi. Fe'i llywodraethir gan Fwrdd Rheoli (a arweinir gan swyddogion) a Chyd-bwyllgor, sy'n cynnwys chwe aelod etholedig, dau o bob cyngor.

8 Mae'r cydwasanaeth rheoleiddio'n darparu gwasanaethau craidd (swyddogaethau sy'n gyffredin i'r holl gynghorau) a gwasanaethau penodol sy'n unigryw i bob cyngor. Caiff gwasanaethau craidd eu cyllido ar y cyd, ac mae cyfraniad pob cyngor yn seiliedig ar ei boblogaeth.

9 Sefydlwyd y cydwasanaeth rheoleiddio i ddefnyddio adnoddau cynghorau'n fwy effeithiol ac i alluogi'r tri chyngor i barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd da gan leihau costau ar yr un pryd.

10 Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o berfformiad gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor (rheoli plâu, llety cŵn, a gorfodi ar adael sbwriel a thipio anghyfreithlon) yn ogystal â'r rhai a ddarperir ar y cyd trwy'r cydwasanaeth rheoleiddio.

11 Mae Arddangosyn 1 isod yn nodi'r gwasanaethau a oedd o fewn cwmpas ein hadolygiad:

Arddangosyn 1: Gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o fewn cwmpas yr adolygiad

| Gwasanaethau a ddarperir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio | Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor |
|---|---|
| Rheoli llygredd<br>Diogelwch bwyd<br>Iechyd a Diogelwch<br>Clefydau heintus<br>Tai'r sector preifat<br>Claddu/amlosgi pobl ymadawedig ar draul pwrs y wlad<br>Troi allan yn anghyfreithlon ac aflonyddu | Rheoli plâu (wedi'i roi ar gontract allanol i drydydd parti)<br>Gadael sbwriel<br>Tipio anghyfreithlon |

## Yr hyn a ganfuom

12 Roedd ein hadolygiad yn ceisio ateb y cwestiwn: a yw gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn y Cyngor yn dal i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o ystyried yr heriau ariannol?

13 Ar y cyfan, canfuom fod y model Cydwasanaethau Rheoleiddio (SRS) yn galluogi'r Cyngor i gynnal ei ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau a chyfrifoldebau a osodir arno gan newidiadau parhaus mewn deddfwriaeth. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau trosolwg a chraffu ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gweithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a darparwyr eraill i archwilio'r cyfleoedd i wella yn y dyfodol. Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 ond mae perfformiad y Cyngor wedi cael ei gynnal trwy gydweithio gyda dau gyngor arall trwy'r cydwasanaeth rheoleiddio.
- er bod y Cyngor a'r cydwasanaeth rheoleiddio'n hyderus bod rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu cyflawni, nid yw'r

naill na'r llall wedi cwblhau asesiad i ganfod ai felly y mae hi. Dylai'r Cyngor a'r cydwasanaeth rheoleiddio gydweithio i wahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i oleuo prosesau penderfynu mewn ynglŷn ag unrhyw ostyngiadau mewn cyllidebau yn y dyfodol.

- mae fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad yn gadarn ond gallai trefniadau ar gyfer adolygu a herio gwybodaeth am berfformiad gael eu ffurfioli.
- dylai'r Cyngor wella her annibynnol, trosolwg a chraffu gan aelodau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir gan y Cyngor, y cydwasanaeth rheoleiddio a darparwyr eraill.
- mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau arwyddocaol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai roi ystyriaeth fwy gofalus i effaith newidiadau yn y dyfodol ar drigolion a busnesau a  gwneud gwaith ymgynghori uniongyrchol lle y bo'n briodol
- rhaid i'r Cyngor a'r Cydwasanaeth Rheoleiddio barhau i arloesi a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau yn y cyllid.

# Cynigion ar gyfer gwella

### Arddangosyn 2: cynigion ar gyfer gwella

Mae'r tabl isod yn nodi'r cynigion ar gyfer gwella yr ydym wedi'u hadnabod yn dilyn yr adolygiad hwn. Sylwer bod y cynigion ar gyfer gwella'n berthnasol i wasanaethau a ddarperir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio a chan y Cyngor, oni nodir fel arall.

| Cyf. | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|
| C1 | Canfuom beth tystiolaeth bod gwaith wedi cael ei wneud i ddadansoddi'r costau, y manteision a'r effaith er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ynglŷn ag arbedion a newidiadau i wasanaethau. Fodd bynnag, er bod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith ailstrwythuro staff dros y cyfnod rhwng 2018 a 2021, cydnabuwyd hefyd ymhlith swyddogion ac aelodau y byddai effaith wirioneddol hyn yn anhysbys i raddau helaeth nes bod y £498k o arbedion yn dechrau cael effaith.<br>Dylai'r Cyngor gynnal dadansoddiad mwy trylwyr o gostau, manteision ac effeithiau unrhyw newidiadau i wasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| C2 | Dylai'r Cyngor ymchwilio i bosibiliadau pellach ar gyfer masnacheiddio a chreu incwm lle mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y cwestiwn i ddarparu gallu ariannol ychwanegol os yw'r cyllid yn lleihau yn y dyfodol. |
| C3 | Wrth ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol yn cael ei ddogfennu'n glir a'i ddeall gan benderfynwyr. |

| Cyf. | Cynigion ar gyfer gwella |
|---|---|
| | Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau a phwerau statudol yn cael eu pwyso a'u blaenoriaethu'n briodol ochr yn ochr â gwasanaethau dewisol. |
| C4 | Dylai'r Cyngor gyflwyno mwy o her i lefel ac ansawdd gwasanaethau iechyd yr amgylchedd gan drydydd partïon, gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio dan y Cytundeb Gweithio ar y Cyd. |
| C5 | Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli "cleient" / contractau ar gyfer ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd trwy:<br>• fabwysiadu dull mwy rhagweithiol o reoli perfformiad contractwyr (gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio) i alluogi'r Cyngor i ddwyn ei bartneriaid i gyfrif am eu perfformiad<br>• adolygu'r contract rheoli plâu a roddwyd i gwmni allanol, Mitie, gan gynnwys data hanesyddol ar y nifer o weithiau y cafodd ei alw allan, i geisio canfod a yw'r strwythur cyfredol lle telir ffioedd misol unffurf yn rhoi gwerth am aran i'r Cyngor. Gellir defnyddio hyn wedyn i oleuo'r broses o ailnegodi'r contract wrth ei adnewyddu yn 2020. |
| C6 | Dylai'r Cyngor weithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio i gynnal adolygiad o drefniadau parhad busnes a chynllunio ar gyfer olyniaeth mewn perthynas â'r Cydwasanaethau Rheoleiddio i liniaru'r risg o orddibyniaeth ar unigolion allweddol, megis Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio a rheolwyr gweithredol. |
| C7 | Dylai'r Cyngor gryfhau trosolwg gan aelodau etholedig ar ei wasanaethau iechyd yr amgylchedd, er enghraifft trwy Graffu'n fwy rheolaidd ar wasanaethau a ddarperir gan drydydd partïon gan gynnwys y Cydwasanaethau Rheoleiddio. |
| C8 | Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi sy'n fwy strwythuredig ac wedi'u targedu'n fwy ar gyfer aelodau perthnasol, a allai fod o fudd os ceir newidiadau i bersonél ac mewn meysydd lle ceir newidiadau mewn deddfwriaeth, e.e. llygredd aer/diogelwch bwyd/clefydau heintus. |
| C9 | Dylai'r Cyngor gysylltu unrhyw benderfyniadau ynglŷn â newidiadau i lefelau gwasanaethau yn y dyfodol yn fwy eglur ag asesiad o'r effaith ar randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys defnyddwyr gwasanaethau a thrigolion. Dylid penderfynu a oes angen ymgynghori, a pha ddull ymgynghori sydd fwyaf priodol, ar sail achosion unigol. Fodd bynnag, lle mae newidiadau'n debygol o effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, busnesau a thrigolion lleol, dylent fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau hyn a dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch. |
| C10 | Mae angen i'r Cyngor adeiladu ar fentrau megis ap Sŵn y Cydwasanaethau Rheoleiddio, i sicrhau bod effaith gostyngiadau yn y cyllid yn y dyfodol yn gallu cael ei lliniaru trwy arloesi a thrawsnewid y modd y darperir gwasanaethau ac fel bod gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn gallu cael budd o dechnolegau newydd. |

# Adroddiad manwl

## Mae'r model Cydwasanaethau Rheoleiddio (SRS) yn galluogi'r Cyngor i gynnal ei ddarpariaeth gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yng nghyd-destun adnoddau sy'n lleihau a chyfrifoldebau a osodir arno gan newidiadau parhaus mewn deddfwriaeth. Mae cyfle i'r Cyngor gryfhau ei drefniadau trosolwg a chraffu ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a gweithio gyda'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a darparwyr eraill i archwilio'r cyfleoedd i wella yn y dyfodol


## Mae'r adnoddau sydd ar gael i wasanaethau iechyd yr amgylchedd wedi lleihau ers 2014-15 ond mae perfformiad y Cyngor wedi cael ei gynnal trwy gydweithio gyda dau gyngor arall trwy'r cydwasanaeth rheoleiddio

14 Mae darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd trwy'r Cydwasanaethau Rheoleiddio'n darparu hyblygrwydd a chydnerthedd. Er bod adnoddau wedi lleihau mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi gallu ailgyfeirio adnoddau wrth i flaenoriaethau newid ac i faterion godi. Trwy'r Cydwasanaethau Rheoleiddio, mae'r Cyngor wedi gallu parhau i ddarparu rhai gwasanaethau iechyd yr amgylchedd anstatudol, digwyddiadau hylendid bwyd i gefnogi busnesau lleol.

15 Mae cost darparu'r gwasanaethau wedi gostwng o £1.372 miliwn yn 2014-15 i £1.000 miliwn yn 2018-19 (alldro refeniw, gwasanaethau Pen-y-bont ar Ogwr a gwasanaethau'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyd fel a ddangosir yn Arddangosyn 3, sy'n ostyngiad o 27%).

Arddangosyn 3: cost net gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr ar y cyd


(Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a gadwyd gan y Cyngor yn ogystal â chost gwasanaethau'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, yn rhai craidd ac awdurdod-benodol)




Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru, Cyflawni â Llai – Adolygiad o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd 2015, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio

16 Y Cydwasanaethau Rheoleiddio sy'n darparu'r mwyafrif o wasanaethau iechyd yr amgylchedd y Cyngor, ac eithrio rheoli plâu, a gorfodi ar adael sbwriel a thipio anghyfreithlon. Mae Arddangosyn 4 isod yn dangos cost y Cydwasanaethau Rheoleiddio i'r tri chyngor, gan ddangos tuedd i'r costau ar y cyfan ostwng ers creu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Gan bod y Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi dechrau ar 1 Mai 2015, mae'r costau ar gyfer 2015-16 yn adlewyrchu 11 mis o'r flwyddyn yn unig.

Arddangosyn 4: cyfanswm cost y Cydwasanaethau Rheoleiddio, i'r tri chyngor wedi'u cyfuno (gan gynnwys gwasanaethau craidd ac awdurdod-benodol)




Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio

17 Fe wnaeth creu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ddwyn arbediad ar unwaith a hwnnw'n sylweddol o'i gymharu â chyfanswm cyllidebau blaenorol y gwasanaethau i'r sefydliadau a oedd yn cyfranogi. Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi cytuno i gyflawni gostyngiadau o 5% yn y gyllideb yn flynyddol rhwng 2018-19 a 2020-21. Mae hyn yn ostyngiad yn y gyllideb graidd o £830,000 (y mae £186,000 ohono'n ymwneud â chyfraniad Pen-y-bont ar Ogwr). Mae'r ffigyrau hyn yn cynnwys holl wasanaethau'r Cydwasanaethau Rheoleiddio, gan gynnwys y rhai sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, megis safonau masnachu.

18 Pan sefydlwyd y Cydwasanaethau Rheoleiddio fe arhosodd costau gweinyddol a gorbenion megis costau adeiladau gyda'r cynghorau unigol. Nid yw'r gorbenion hyn wedi'u cynnwys o fewn yr wybodaeth ariannol ar gyfer y Cydwasanaethau Rheoleiddio (Arddangosyn 4) ond maent wedi'u cynnwys yn Arddangosyn 3.

19 Fe gyflawnodd y Cydwasanaethau Rheoleiddio danwariant o £496,000 yn 2018-19, y gallai gadw £200,000 ohono. Cyflawnwyd y tanwariant hwn oherwydd swyddi gwag ymhlith y staff ac ailstrwythuro'r gwasanaeth yn ystod 2018. Mae'r Cydbwyllgor wedi cytuno y gall y Cydwasanaethau Rheoleiddio gadw'r tanwariant hwn i'w fuddsoddi mewn mentrau i fynd i'r afael â swyddi gwag presennol, yn hytrach na'i fod yn cael ei ddychwelyd i'r cynghorau sy'n cyfranogi. Mae hyn yn dangos bod y tri chyngor yn gwerthfawrogi rôl y Cydwasanaethau Rheoleiddio.

20 Caiff alldro amodol y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn 2018-19 ei dangos yn Arddangosyn 5 isod.

Arddangosyn 5: alldro amodol y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn 2018-19


| Cyngor | Cyllideb gros £000 | Alldro £000 | Amrywiant £000 |
|---|---|---|---|
| Caerdydd | 4,978 | 4,789 | 189 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **1,774** | **1,602** | **172** |
| Y Fro | 1,752 | 1,617 | 135 |
| **Cyfanswm** | **8,504** | **8,008** | **496** |

Ffynhonnell: Papurau'r Cydbwyllgor 11 Mehefin 2019. Mae'r ffigyrau hyn ar gyfer yr holl wasanaethau a ddarperir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio ac maent yn cynnwys gwasanaethau sydd y tu hwnt i gwmpas yr adolygiad hwn, megis Safonau Masnachu.

21 Mae niferoedd staff wedi gostwng rhwng 2014 a 2019. Yn 2014 roedd y tri chyngor gyda'i gilydd yn cyflogi 151.15 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn o'i gymharu â 143.92 o gyflogeion cyfwerth ag amser llawn a gyflogir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio a'r cynghorau ar y cyd yn 2019. Ceir gostyngiad sylweddol yn nifer y swyddi rheoli, ac mae nifer y swyddogion a thechnegwyr cymwysedig wedi cynyddu. Dangosir hyn yn Arddangosyn 6.

22 Mae'r gostyngiad canrannol o ran arbedion i'r gyllideb yn gymharol uwch na'r gostyngiad canrannol yn niferoedd y staff. Trwy gynnal adolygiad manwl o doriadau staff arfaethedig mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi gallu cynnal eu darpariaeth gwasanaethau gan ostwng costau'n sylweddol ar yr un pryd.

Arddangosyn 6: niferoedd staff (cyfwerth ag amser llawn) a gyflogir gan y Cydwasanaethau Rheoleiddio a'r tri chyngor ar y cyd (Caerdydd, Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr), 2014 o'i gymharu â 2019




Ffynhonnell: Ffigyrau 2014 – Swyddfa Archwilio Cymru, Cyflawni â Llai – Adolygiad o Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd 2015 – Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio.

23 Dylid cynnal dadansoddiad tryloyw a thrylwyr o'r costau, y manteision a'r effeithiau ar gyfer unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol er mwyn rhagweld a rheoli'r risgiau a fydd yn codi. Canfuom beth tystiolaeth bod gwaith wedi cael ei wneud i ddadansoddi'r costau, y manteision a'r effaith er mwyn ei gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau ynglŷn â'r gostyngiadau hyn i'r gyllideb. Fodd bynnag, er bod peth ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith ailstrwythuro staff dros y cyfnod rhwng 2018 a 2021, cydnabuwyd hefyd ymhlith swyddogion ac aelodau y byddai effaith wirioneddol hyn ar wasanaethau ac felly ar drigolion a busnesau lleol yn anhysbys i raddau helaeth nes bod y £498,000 o arbedion a dynnwyd allan o'r gyllideb yn 2019-20 yn dechrau cael effaith.

24 Mae'r Cyngor yn gallu dangos perfformiad sy'n sefydlog neu'n gwella dros amser gyda'r mwyafrif o'i ddangosyddion perfformiad, er bod yr adnoddau wedi lleihau.

25 Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio'n cyflwyno adroddiadau i'r Cydbwyllgor ar ddeg o ddangosyddion sy'n ymwneud yn benodol â gwasanaethau'r Cyngor, heb gynnwys safonau masnachu. O'r deg yma, yn 2018-19 fe gyrhaeddwyd y targed ar gyfer pob un o'r dangosyddion heblaw am un (nifer yr arolygiadau risg-uchel o fusnesau Categori C a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn).

## Er bod y Cyngor a’r cydwasanaeth rheoleiddio’n hyderus bod rhwymedigaethau o ran iechyd yr amgylchedd yn cael eu cyflawni, nid yw’r naill na’r llall wedi cwblhau asesiad i ganfod ai felly y mae hi. Dylai’r Cyngor a’r cydwasanaeth rheoleiddio gydweithio i wahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol i helpu i oleuo prosesau penderfynu mewn ynglŷn ag unrhyw ostyngiadau mewn cyllidebau yn y dyfodol

26 Mae’r Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn rhwymo’r Cydwasanaethau Rheoleiddio i ddarparu gofynion statudol a orchmynnir yn gyfreithiol yn ogystal â gwasanaethau anstatudol dewisol. Mae’r Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn nodi’r gweithgareddau a fydd yn cael eu cyflawni ar gyfer pob maes gwasanaeth ond nid yw’n nodi’r rhai sy’n statudol.

27 Ar y cyfan, roedd y swyddogion y cyfwelwyd â hwy’n gallu disgrifio’r gofynion o ran gwasanaethau statudol ac anstatudol mewn perthynas â’u meysydd cyfrifoldeb o fewn gwasanaethau iechyd yr amgylchedd.

28 Cydnabyddir ymhlith swyddogion ac aelodau y cyfwelwyd â hwy na fydd y Cyngor o bosibl yn gallu cynnal yr un ystod o wasanaethau anstatudol yn y dyfodol pan fydd yn wynebu pwysau ariannol pellach.

29 Nid yw’r Cydwasanaethau Rheoleiddiol na’r Cyngor wedi asesu a yw Safonau Arfer Da’n cael eu cyrraedd, er bod targedau lleol ar gyfer perfformiad wedi cael eu pennu.

30 Mae’r Cyngor yn mabwysiadu dull seiliedig ar ganlyniadau o ddarparu gwasanaethau, ac mae wedi dewis cynnal gwasanaethau anstatudol sy’n flaenoriaeth i roi cymorth i gyflawni amcanion corfforaethol ehangach ac amcanion ehangach o ran iechyd yr amgylchedd.

31 Fodd bynnag, rydym yn nodi nad yw’r Cyngor wedi cynnal adolygiad i asesu i ba raddau y mae’n cyflawni rhwymedigaethau statudol o ran iechyd yr amgylchedd, ac nid yw adroddiadau’r Cydwasanaethau Rheoleiddio ar berfformiad yn gwahaniaethu rhwng gwasanaethau statudol a dewisol.

32 Byddai darparu diffiniad clir o wasanaethau statudol, yn ogystal â’r safonau perfformiad sylfaenol/uwch sy’n dderbyniol, o gymorth i swyddogion ac aelodau wneud penderfyniadau ynglŷn â newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol, ac yn rhoi sicrwydd ychwanegol i aelodau bod y Cyngor yn parhau i daro cydbwysedd rhwng gofynion statudol a blaenoriaethau strategol mewn perthynas â gwasanaethau anstatudol.

# Mae fframweithiau llywodraethu a rheoli perfformiad yn gadarn ond gallai trefniadau ar gyfer adolygu a herio gwybodaeth am berfformiad gael eu ffurfioli

33 Ar y cyfan, mae system monitro a rheoli perfformiad chwarterol gadarn yn ei lle ar gyfer y Cydwasanaethau Rheoleiddio, gyda swyddogaeth graffu a her yn cael eu darparu trwy'r Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor.

34 Mae Cynllun Busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r gwasanaeth, sut y mae'r rhain yn cyfrannu at y saith nod llesiant a blaenoriaethau a chanlyniadau corfforaethol pob Cyngor.

35 Mae amcanion Iechyd yr Amgylchedd y Cydwasanaethau Rheoleiddio'n gyson ag amcanion strategol cyffredinol y Cyngor ac roedd y swyddogion y cyfwelwyd â hwy'n gallu disgrifio sut y mae gwasanaeth iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at gyflawni'r rhain. Dywedodd swyddogion ac aelodau y cyfwelwyd â hwy na fu unrhyw achosion hyd yma o wrthdaro buddiannau rhwng y Cyngor a'r Cydwasanaethau Rheoleiddio/cynghorau eraill sy'n aelodau.

36 Mae gan y Cydbwyllgor awdurdod dirprwyedig dros benderfyniadau sy'n ymwneud â'r Cydwasanaethau Rheoleiddio ac mae'n monitro perfformiad y Cydwasanaethau Rheoleiddio, gan osgoi dyblygu a galluogi cynrychiolaeth wleidyddol a thryloywder ar yr un pryd. Caiff cyfarfodydd y Cyngor ym Mhen-y-bont ar Ogwr eu recordio, gan gynnwys adroddiadau a gyflwynir gan swyddogion y Cydwasanaethau Rheoleiddio, ac mae'r recordiadau ar gael ar wefan y Cyngor.

37 Mae'r Bwrdd Rheoli a'r Cydbwyllgor yn cael adroddiadau chwarterol a blynyddol ar berfformiad, sy'n ofynnol dan y Cytundeb Gweithio ar y Cyd. Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio ar ddangosyddion perfformiad allweddol, ac yn cael eu hategu gan wybodaeth ansoddol, megis cwynion gan y cyhoedd neu arolygon cleientiaid. Mae'r adroddiadau ar berfformiad yn ymdrin â pherfformiad Cynghorau unigol, yn ogystal â'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn eu cyfanrwydd, ac yn darparu dadansoddiad o dueddiadau am hyd at bedair blynedd ragflaenol. Rydym ni o'r farn bod yr adroddiadau'n gynhwysfawr a bod ehangder a chwmpas y data'n ddigonol i'w gwneud yn bosibl gwneud penderfyniadau mewnol gwybodus.

38 Defnyddir gwybodaeth reoli i ddarparu golwg gyfannol ar lefel ac ansawdd y ddarpariaeth gwasanaethau. Lle y bo'n bosibl, mae perfformiad yn erbyn targedau mewnol yn cael ei gymharu â set o feincnodau cenedlaethol hefyd.

39 Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi gallu cynnal neu wella'i berfformiad yn y mwyafrif o feysydd. Lle dangoswyd fod perfformiad wedi dirywio, mae'r rhesymau dros hyn a chamau cywirol yn cael eu nodi'n glir.

40 Y tu allan i'r cylch adolygu perfformiad chwarterol, mae cyfarfodydd misol yn digwydd rhwng Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio, Rheolwyr Gweithredol a swyddogion ac aelodau'r Cynghorau unigol. Mae materion penodol sy'n ymwneud

ag agweddau gweithredol a pherfformiad yn aml yn cael eu trafod yn anffurfiol yn y cyfarfodydd hyn.

41 Ar gyfer y gwasanaethau hynny a ddarperir yn uniongyrchol gan y Cyngor megis rheoli plâu a llety cŵn, caiff perfformiad ei fonitro gan y pennaeth gwasanaeth ac adroddir wrth y Cyfarwyddwr perthnasol arno. Ymdrinnir ag unrhyw faterion o ran perfformiad trwy'r system perfformiad corfforaethol, er na wnaethom adnabod unrhyw faterion o'r fath mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn yn ystod ein hadolygiad.

42 Mae swyddogion ac aelodau o'r farn bod y trefniadau a ddisgrifir uchod yn effeithiol. Fodd bynnag, rydym yn nodi bod trefniadau presennol ar gyfer adolygu a herio gwybodaeth am berfformiad yn gymharol anffurfiol ac yn dibynnu ar berthnasoedd gweithio cadarnhaol rhwng y Cydwasanaethau Rheoleiddio a swyddogion ac aelodau'r Cynghorau. Er bod y dull hwn yn gweithio'n dda ar hyn o bryd, mae risg efallai na fydd yn gydnerth os ceir amgylchiadau nas rhagwelwyd megis methiant sylweddol mewn gwasanaeth neu newid yn y personél allweddol.

## Dylai'r Cyngor wella her annibynnol, trosolwg a chraffu gan aelodau mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd a ddarperir gan y Cyngor, y cydwasanaeth rheoleiddio a darparwyr eraill

43 O safbwynt y Cyngor, mae craffu ar faterion iechyd yr amgylchedd o fewn cylch gorchwyl y tri Phwyllgor Trosolwg a Chraffu Pynciol, yn ogystal â'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. Yn y flwyddyn ddiwethaf fe wnaeth Pwyllgor Trosolwg a Chraffu 2 drafod perfformiad eiddo gwag fel rhan o'r diweddariad ar y flaenraglen waith. Mae'r pwyllgorau hyn yn craffu ar faterion iechyd yr amgylchedd pan fo aelodau'n gofyn iddynt wneud ond maent yn eu hystyried yn rheolaidd ar sail barhaus. Nid yw nid yw pwyllgorau craffu'r Cyngor wedi adolygu Adroddiad Blynyddol na Chynllun Busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio, er enghraifft. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor wedi mynd ati'n effeithiol i asesu perfformiad y Cydwasanaethau Rheoleiddio yng nghyd-destun y dogfennau hyn.

44 Mae'r Cyngor yn y broses o roi strategaeth ddatblygu ar waith i helpu cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i wella'u lefel o her a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau sy'n bodoli o ran sgiliau. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynnwys egluro Cytundeb Gweithio ar y Cyd y Cydwasanaethau Rheoleiddio.

45 Ar hyn o bryd, mae Pennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio a rheolwyr gweithredol yn cwrdd â chadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu yn anffurfiol ac ar sail ad-hoc. Roedd cynghorwyr ac aelodau y cyfwelwyd â hwy o'r farn bod hon yn berthynas ddwyffordd, gadarnhaol.

46 Mae'r Cyngor yn dibynnu ar Fwrdd Rheoli'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a Chydbwyllgor y Cydwasanaethau Rheoleiddio i fonitro perfformiad ac uwchgyfeirio trwy eithriad, heb graffu annibynnol systematig.

47 Mae'r gwaith o adolygu a herio gwybodaeth am berfformiad y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn cael ei gyflawni ar hyn o bryd gan unigolion sy'n chwarae rhan fawr yn y gwasanaeth ac yn y broses o baratoi'r wybodaeth am berfformiad ei hun, gan greu risg o ran gwahanu dyletswyddau/hunanfuddiant.

48 Y tu allan i'r y Cydwasanaethau Rheoleiddio, mae'r Cyngor wedi ceisio mabwysiadu modelau darparu newydd i wella cost-effeithiolrwydd, er enghraifft trwy roi'r gwasanaeth rheoli plâu ar gontract allanol i gyflenwr trydydd parti. Dylai'r trefniadau hyn gael eu hadolygu a'u herio'n rheolaidd i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u contractio'n dal i roi'r gwerth optimaidd i'r Cyngor.

49 Rydym yn nodi bod Mitie (partner trydydd parti ar gyfer y contract rheoli plâu) yn cael tâl ar sail ffi unffurf ni waeth faint o weithiau y cânt eu galw allan yn ystod y mis a all olygu nad yw'r Cyngor yn cael y gwerth gorau am arian o'r contract.

50 Byddai o fudd pe bai'r Cyngor yn cyflwyno trosolwg fwy ffurfiol ac annibynnol ar Gytundeb Gweithio ar y Cyd y Cydwasanaethau Rheoleiddio, yn ogystal â'r contract rheoli plâu gyda Mitie. Dylai hyn fod yn annibynnol ar y Cydwasanaethau Rheoleiddio / Mitie a chael ei wneud gan swyddogion nad ydynt yn rhan o ddarparu'r gwasanaethau dan sylw er mwyn sicrhau gwrthrychedd.

51 Adroddir ar Fetrigau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM) sy'n gysylltiedig â gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd yn chwarterol wrth y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol. Y tu hwnt i adrodd ar Fetrigau Atebolrwydd Cyhoeddus statudol, nid ydym wedi sylwi ar unrhyw dystiolaeth o graffu ar berfformiad y Cydwasanaethau Rheoleiddio gan unrhyw un o bwyllgorau craffu'r Cyngor.

52 Dylai'r Cyngor ystyried cyflwyno cyfleoedd datblygu a hyfforddi sy'n fwy strwythuredig ac wedi'u targedu'n fwy ar gyfer aelodau perthnasol, gan y gallai hyn fod o fudd i sicrhau bod aelodau newydd yn gyfarwydd â'r gwasanaeth a meysydd lle ceir newidiadau mewn deddfwriaeth, e.e. llygredd/diogelwch bwyd/clefydau heintus .

53 Mae archwilio mewnol yn darparu ffynhonnell bellach o ran sicrwydd annibynnol i'r cynghorau sy'n aelodau. Rydym yn cydnabod bod adolygiad wedi'i gynnal gan Gydwasanaeth Archwilio Mewnol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg yn 2019-20, dyddiedig Mehefin 2019. Fe wnaeth yr adolygiad ystyried Trefniadau Llywodraethu a Rheolaethau Ariannol y Cydwasanaethau Rheoleiddio a darparu sicrwydd sylweddol.

54 Y tu allan i'r y Cydwasanaethau Rheoleiddio, mae'r Cyngor wedi ceisio mabwysiadu modelau darparu newydd i wella cost-effeithiolrwydd, er enghraifft trwy roi'r gwasanaeth rheoli plâu ar gontract allanol i gyflenwr trydydd parti. Dylai'r trefniadau hyn gael eu hadolygu a'u herio'n rheolaidd i sicrhau bod gwasanaethau wedi'u contractio'n dal i roi'r gwerth optimaidd i'r Cyngor.

55 Er enghraifft, rydym yn nodi bod Mitie (partner trydydd parti ar gyfer y contract rheoli plâu) yn cael tâl ar sail ffi unffurf ni waeth faint o weithiau y cânt eu galw

allan yn ystod y mis a all olygu nad yw'r Cyngor yn cael y gwerth gorau am arian o'r contract.

## Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau arwyddocaol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai roi ystyriaeth fwy gofalus i effaith newidiadau yn y dyfodol ar drigolion a busnesau a gwneud gwaith ymgynghori uniongyrchol lle y bo'n briodol

56 Yn yr adroddiad cenedlaethol a gyhoeddwyd gennym yn 2014 ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd, fe argymhellom ni y dylai cynghorau wella'r modd y maent yn ymgysylltu â thrigolion lleol ynghylch toriadau arfaethedig i gyllidebau a newidiadau i wasanaethau (gweler Atodiad 1). Er mwyn gwneud penderfyniad gwybodus, mae angen i swyddogion ac aelodau ddeall effaith unrhyw newidiadau ar yr holl randdeiliaid. Ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd gall newidiadau effeithio ar ystod o randdeiliaid, yn rhai allanol megis busnesau, trigolion lleol ac asiantaethau eraill, ac yn rhai mewnol megis staff ac undebau llafur.

57 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad helaeth yn 2013-14 cyn sefydlu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Roedd hwn yn cynnwys staff, undebau llafur, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill megis yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd. Yn yr un modd, fe ymgynghorwyd â staff ac undebau llafur ynghylch y gostyngiadau yn niferoedd y staff yn y Cydwasanaethau Rheoleiddio yn 2018.

58 O ystyried bod yr un ystod o wasanaethau wedi bod yn cael eu darparu ers 2015, ni fu unrhyw ymgynghori â'r cyhoedd ers sefydlu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Rydym yn ymwybodol bod y Cyngor wedi ceisio mewnbwn trigolion lleol i Strategaeth Cartrefi Gwag yn ddiweddar trwy ei wefan.

59 Rydym yn cydnabod bod y Cydwasanaethau Rheoleiddiol wedi dewis peidio ag ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch newidiadau gweinyddol lle na ddisgwylir i'r newidiadau effeithio ar ddarpariaeth reng-flaen lle mae gwasanaethau yn y cwestiwn.

60 Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi sefydlu eu brand a'u gwefan eu hunain ac maent yn darparu amrywiaeth eang o wybodaeth. Mae'r wefan yn galluogi trigolion lleol i gael mynediad at wasanaethau, hysbysu ynghylch materion hylendid bwyd a chael mynediad at ddogfennau allweddol megis cynllun busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'n gwahodd sylwadau ac adborth gan y cyhoedd na busnesau.

61 Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddiol yn gwneud defnydd gweithredol o'r cyfryngau cymdeithasol i hysbysu ystod o randdeiliaid ac maent yn mynd ati'n fisol i adolygu unrhyw wybodaeth ac adborth a gafwyd mewn ymateb trwy sianeli'r cyfryngau cymdeithasol. Caiff yr adborth hwn ei gymryd i ystyriaeth yn nhrafodaethau rheolwyr gweithredol.

62 Wrth i adnoddau ddod yn fwy cyfyngedig, efallai y bydd rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau ynglŷn â sut y bydd gwasanaethau'n cael eu darparu a allai effeithio ar drigolion lleol. Dylai trigolion lleol fod yn ymwybodol o'r penderfyniadau hyn a dylid ymgynghori â hwy yn eu cylch.

## Rhaid i'r Cyngor a'r Cydwasanaeth Rheoleiddio barhau i arloesi a thrawsnewid gwasanaethau er mwyn helpu i liniaru unrhyw ostyngiadau yn y cyllid

63 Yn sgîl y gostyngiadau cychwynnol mewn cyllidebau a gyflawnwyd trwy sefydlu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio, yn ogystal â thoriadau staffio parhaus, nid yw'r Cyngor wedi mynd ati eto i archwilio posibiliadau pellach ar gyfer masnacheiddio trwy wasanaethau iechyd yr amgylchedd. Er enghraifft, mae awdurdodau eraill wedi ceisio cyflwyno taliadau seiliedig ar brawf modd ar gyfer gwasanaethau anstatudol neu sefydlu cwmnïau masnachu i ddefnyddio asedau'r cyngor a chreu refeniw. Mae hyn yn rhywbeth y gall fod yn ddefnyddiol ei ystyried yn y dyfodol agos, wrth i adnoddau gael eu hestyn yn fwy.

64 Mae'r angen parhaus i gyflawni arbedion yn golygu bod angen i'r Cydwasanaethau Rheoleiddiol barhau i chwilio am ffyrdd arloesol a newydd o ddarparu gwasanaethau ac ystyried ffurf gwasanaethau yn y dyfodol.

65 Gallai meysydd posibl ar gyfer arloesi yn y dyfodol a chyfleoedd posibl i gynyddu incwm gynnwys:

- modelau darparu masnachol a chydweithredol newydd ar gyfer gwasanaethau neu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio yn eu cyfanrwydd;
- defnyddio data i ragfynegi'r angen am wasanaethau a thargedu ymatebion yn hytrach na chynnal darpariaeth gyffredinol lle mae gwasanaethau yn y cwestiwn; a hefyd
- mwy o gymorth strategol ac integreiddio ag agendau gwasanaethau ehangach y Cynghorau gan gynnwys iechyd y cyhoedd, diogelwch cymunedol, iechyd a gofal cymdeithasol, cynllunio a thwf economaidd.

66 Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi dechrau bwrw golwg ar fentrau digidol ac mae'n treialu ap Sŵn i hysbysu ynghylch materion; fodd bynnag dim ond megis dechrau y mae'r gwaith hwn ac nid yw'n cael unrhyw effaith sylweddol ar gostau nac ansawdd gwasanaethau eto.

# Atodiad 1

## Mae'r Cyngor wedi ymgynghori â rhanddeiliaid allanol allweddol ynghylch newidiadau arwyddocaol i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, ond dylai roi ystyriaeth fwy gofalus i effaith newidiadau yn y dyfodol ar drigolion a busnesau a  gwneud gwaith ymgynghori uniongyrchol lle y bo'n briodol

Fel rhan o'i gyfres 'cyflawni â llai' o Astudiaethau Gwella Llywodraeth Leol, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol ei adroddiad – Cyflawni â Llai – yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion, ym mis Hydref 2014. Roedd yr adroddiad yn cynnwys chwe argymhelliad a nodir isod:

Arddangosyn 7: argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A1 Diwygio'r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion. | Cynghorau, Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru |
| A2 Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A4 Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru |

| Argymhelliad | Partneriaid Cyfrifol |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng ‘cost: budd: effaith’ a defnyddio’r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Cynghorau |
| A6 Nodi’n glir yr hyn a ddisgwylir gan wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau o dan ddeddfwriaeth tai ac iechyd newydd a chytuno sut y caiff y dyletswyddau newydd hyn eu cyflawni. | Llywodraeth Cymru,<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |

# Atodiad 2

## Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

Crynodeb o gynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol, **Cyflawni â Llai: yr Effaith ar Wasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Dinasyddion** (Hydref 2014).

Arddangosyn 2: Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr Archwilydd Cyffredinol

| Argymhelliad | | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|---|
| A2 | Rhoi'r sgiliau a'r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a'u herio'n effeithiol. | Mae'r Cyngor wrthi ar hyn o bryd yn rhoi Strategaeth Ddatblygu ar waith i alluogi cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i gyflawni eu cyfrifoldebau'n effeithiol a mynd i'r afael â bylchau presennol o ran sgiliau. Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n hyfforddiant Hanfodol/Craidd/Seiliedig-ar-anghenion ac ymhlith yr agweddau y mae'n eu cwmpasu mae adolygiad manwl o Gytundeb Gweithio ar y Cyd y Cydwasanaethau Rheoleiddio ar gyfer yr holl aelodau newydd o bwyllgorau craffu.<br>Dywedodd y cadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu y cyfwelwyd â hwy eu bod o'r farn bod y cymorth ad-hoc a roddir gan Bennaeth y Cydwasanaethau Rheoleiddio a Rheolwyr Gweithredol yn ddigon i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Mae hyn, yn rhannol, i'w briodoli i aelodaeth sefydlog o'r Pwyllgorau dros y blynyddoedd diwethaf.<br>Rydym yn nodi, fodd bynnag, nad oes rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra ar gyfer iechyd yr amgylchedd. Rhagwelir y bydd hyn yn rhan o'r rhaglen hyfforddiant seiliedig-ar-anghenion i aelodau sy'n rhan o graffu ar berfformiad gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd. |

| Argymhelliad | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
| --- | --- |
| A3 Ymgysylltu'n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau;<br>• defnyddio'r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth. | Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad helaeth yn 2013-14 cyn sefydlu'r Cydwasanaethau Rheoleiddio. Roedd hwn yn cynnwys staff, undebau llafur, aelodau etholedig a rhanddeiliaid eraill megis yr asiantaeth safonau bwyd. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd.<br>Mae newidiadau pellach i'r Cydwasanaethau Rheoleiddio a gostyngiadau pellach yn eu cyllideb wedi digwydd yn 2018-19 a 2019-20, a oedd yn cynnwys gostyngiad yn niferoedd y staff.<br>Cynhaliwyd proses ymgynghori ac roedd yn cynnwys staff a'r undebau llafur. Fodd bynnag, nid oedd y prosesau ymgynghori ar gyfer y ddau newid yma'n cynnwys trigolion a defnyddwyr gwasanaethau lleol.<br>Yn ddiweddar fe geisiodd y Cyngor fewnbwn trigolion lleol i Strategaeth Cartrefi Gwag trwy ei wefan.<br>Rydym yn cydnabod bod y Cydwasanaethau Rheoleiddio wedi dewis peidio ag ymgynghori â'r cyhoedd pan na ddisgwylir i newidiadau effeithio ar ddarpariaeth reng-flaen lle mae gwasanaethau yn y cwestiwn ond byddem yn argymell y dylai'r effaith debygol ar yr ystod lawn o randdeiliaid gael ei hystyried a'i dogfennu. Rydym yn cydnabod efallai nad yw'n briodol ymgynghori â thrigolion a defnyddwyr gwasanaethau ar gyfer pob newid, ond y dylai'r rhesymeg dros y penderfyniad hwn gael ei dogfennu ac y dylai'r effaith debygol gael ei hystyried. |

| Argymhelliad | | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|---|
| A4 | Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau;<br>• cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni'r rhain;<br>• pennu 'safon dderbyniol o berfformiad' ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion;<br>• gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â'r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy'n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau'r effaith a'r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd. | Mae'r Cyngor wedi gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian. Mae wedi cynnal ei berfformiad trwy gydweithio gydag eraill a chyflwyno'r Cydwasanaethau Rheoleiddio.<br>Trwy weithio mewn partneriaeth gyda Chynghorau Bro Morgannwg a Chaerdydd gall ddarparu ei wasanaethau mewn ffordd fwy hyblyg a chynaliadwy ac nid yw wedi gorfod cyfyngu ar y gwasanaethau a ddarperir ganddo, er ei fod yn ceisio darparu pethau mewn ffyrdd newydd ac arloesol.<br>Mae'r Cydwasanaethau Rheoleiddio'n darparu gofynion statudol a orchmynnir yn gyfreithiol yn ogystal â gwasanaethau anstatudol dewisol. Mae'r Cytundeb Gweithio ar y Cyd yn nodi'r swyddogaethau ar gyfer pob maes gwasanaeth ac yn rhestru'r tasgau ond nid yw'n nodi'r rhai sy'n statudol.<br>Wrth ystyried sut y gall fod angen i wasanaethau iechyd yr amgylchedd newid yn y dyfodol, dylai'r Cyngor sicrhau bod y gwahaniaeth rhwng gwasanaethau statudol ac anstatudol wedi'i ddogfennu'n glir ac yn cael ei ddeall gan benderfynwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod cyfrifoldebau statudol yn cael eu pwyso a'u blaenoriaethu'n briodol ochr yn ochr â gwasanaethau dewisol.<br>Er bod y Cyngor wedi rhoi ei wasanaeth rheoli plâu ar gontract allanol i Mitie, ein dealltwriaeth ni yw y codir ffi unffurf ar y Cyngor ni waeth faint o weithiau y mae'r contractwr yn cael ei alw allan yn fisol. Efallai nad yw hyn yn rhoi'r gwerth gorau am arian i'r Cyngor. Rydym felly'n argymell bod unrhyw gontractau trydydd parti'n cael eu rheoli a'u negodi gan ddefnyddio dull seiliedig-ar-ddata i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd cost-effeithiol ac i'r safonau priodol. |

| Argymhelliad | Cynnydd y Cyngor o ran mynd i'r afael â'r argymhelliad |
|---|---|
| A5 Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon fel sail i benderfyniadau ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau yn y dyfodol; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. | Mae Cynllun Busnes y Cydwasanaethau Rheoleiddio'n nodi gweledigaeth a blaenoriaethau'r gwasanaethau, sut y mae'r rhain yn cyfrannu at y saith nod llesiant a blaenoriaethau a chanlyniadau corfforaethol pob Cyngor.<br>Mae amcanion iechyd yr amgylchedd yn gyson ag amcanion strategol cyffredinol y Cyngor ac roedd swyddogion y cyfwelwyd â hwy'n gallu disgrifio sut y mae gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn cyfrannu at gyflawni'r rhain. Mae data ariannol a data ar berfformiad yn cael ei adolygu'n chwarterol ac rydym wedi gweld tystiolaeth o graffu a herio priodol. Mae rhai mentrau digidol yn cael eu treialu i wella'r modd y darperir gwasanaethau yn y dyfodol.<br>Canfuom beth tystiolaeth bod gwaith wedi cael ei wneud i ddadansoddi'r costau, y manteision a'r effaith mewn perthynas â gostyngiadau yn y gyllideb. Fodd bynnag, er bod peth ystyriaeth wedi cael ei rhoi i effaith ailstrwythuro staff dros y cyfnod rhwng 2018 a 2021, cydnabuwyd hefyd ymhlith swyddogion ac aelodau y byddai effaith wirioneddol hyn yn anhysbys i raddau helaeth nes bod y £498,000 o arbedion a dynnwyd allan o'r gyllideb yn 2019/20 yn dechrau cael effaith. Dylid cynnal dadansoddiad tryloyw a thrylwyr o'r costau, y manteision a'r effeithiau ar gyfer unrhyw newidiadau i wasanaethau yn y dyfodol er mwyn rhagweld a rheoli'r risgiau a fydd yn codi. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit. wales
Website: www. audit. wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio. cymru
Gwefan: www. archwilio. cymru